Bowel Cancer UK
Beating bowel cancer together
Curo canser y coluddion gyda'n gilydd

Canllaw i feddygon teulu yng Nghymru:

# Cyfeirio pobl i gael ymchwiliad ynghylch canser y coluddyn

**Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnig canllawiau arfer gorau i feddygon teulu ynghylch monitro a chyfeirio pobl â phroblemau'r coluddyn yng Nghymru.**

Canser y coluddyn sy'n bedwerydd yn y rhestr o'r mathau mwyaf cyffredin o ganser yng Nghymru. Bydd bron i 2,400 o bobl yn cael diagnosis yn cadarnhau canser y coluddyn bob blwyddyn yng Nghymru. Canser y coluddyn sy'n ail yn y rhestr o ganserau mwyaf angheuol Cymru. Fodd bynnag, ni ddylai fod felly oherwydd gellir trin ac iacháu cleifion sydd â'r cyflwr, yn enwedig os caiff ei ddiagnosio'n gynnar.

## Ffactorau risg

Mae pobl mewn mwy o berygl o gael canser y coluddyn os oes ganddynt un neu ragor o'r ffactorau risg canlynol:

- dros 50 mlwydd oed
- hanes teuluol cryf o ganser y coluddyn
- hanes o dyfiannau nad ydynt yn ganseraidd (polypau) yn eu coluddyn
- clefyd llidiol y coluddyn ers tro byd (er enghraifft, clefyd Crohn neu lid briwiol y coluddyn)
- diabetes math 2
- ffordd o fyw afiach

Po gynharaf y caiff canser y coluddyn ei ddiagnosio, hawsaf yn y byd fydd ei drin. Bydd gwybod pryd ddylid cyfeirio claf, gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Profion FIT ar gyfer Pobl Symptomatic, yn eu helpu i gael diagnosis yn gynharach, ac o bosibl yn achub eu bywyd.

## Cyfeirio oherwydd canser y coluddyn a amheuir

**Dylech gyfeirio cleifion sy'n oedolion gan ddefnyddio Ffurflen Gyfeirio Ar-lein y Gwasanaeth Profion FIT ar gyfer Pobl Symptomatig os oes ganddynt unrhyw un o'r arwyddion a'r symptomau canlynol sy'n peri amheuaeth o ganser y colon a'r rhefr:**

- 40 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn colli pwysau ac yn profi poen anesboniadwy yn yr abdomen
- 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn profi gwaedu anesboniadwy o'r rectwm
- 60 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn profi anemia diffyg haearn neu newidiadau o ran arferion ysgarthuCanlyniadau profion positif am waed cudd (microsgopig) yn eu carthion

**Os yw màs yn y rectwm neu'r abdomen:**

- ystyriwch gyfeiriad llwybr canser a amheuir (i gael apwyntiad o fewn pythefnos) ar gyfer canser y colon a'r rhefr yn achos pobl â màs yn y rectwm neu'r abdomen

**Dylech gyfeirio pobl o dan 50 mlwydd oed i gael apwyntiad o fewn pythefnos:**

- os ydynt yn 40 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn colli pwysau ac yn profi poen anesboniadwy yn yr abdomen
- os yw eu profion yn amlygu gwaed cudd yn eu carthion

**Dylech ystyried cyfeirio pobl o dan 50 mlwydd oed i gael apwyntiad o fewn pythefnos os ydynt yn amlygu unrhyw un o'r symptomau canlynol:**

- màs yn y rectwm
- màs yn yr abdomen
- gwaedu o'r rhefr ac un o'r symptomau canlynol:
    - poen yn yr abdomen
    - newid o ran arferion ysgarthu
    - colli pwysau
    - anemia diffyg haearn

## Beth yw FIT?
Mae Prawf Imiwnocemegol ar Ysgarthion (FIT) yn fath o brawf a ddefnyddir i ganfod olion anweledig o waed mewn ysgarthion ac fe'i defnyddir fwyfwy i lywio gwaith rheoli cleifion â symptomau yn ymwneud â'r bibell gastroberfeddol isaf.

## Defnydd o brofion FIT ar gyfer cleifion â symptomau ym maes gofal sylfaenol
Dylid defnyddio profion FIT ar lefel sensitifrwydd o 10µg/g (microgramau o waed fesul gram o ysgarthion) ym maes gofal sylfaenol i ddethol cleifion â symptomau yn ymwneud â'r bibell gastroberfeddol isaf ar gyfer llwybr cyfeirio brys fel y gellir ymchwilio ymhellach.

**Dylech ystyried cynnig FIT i asesu am ganser y colon a'r rhefr yn achos oedolion heb waedu o'r rhefr sydd:**

- yn 50 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn colli pwysau ac yn profi poen anesboniadwy yn yr abdomen
- yn 60 mlwydd oed neu'n iau ac yn profi anemia diffyg haearn neu newidiadau o ran arferion ysgarthu
- yn 60 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn dioddef gan anemia hyd yn oed os nad oes diffyg haearn

Mae'n bwysig cofio bod lefel sensitifrwydd profion FIT ar gyfer y rhaglen sgrinio coluddion wedi'i gosod ar 80µg/g (microgramau o waed fesul gram o ysgarthion) felly gallai rhywun amlygu symptomau er eu bod wedi cael canlyniad negyddol yn sgil prawf sgrinio diweddar.

Ni ddylid eithrio cleifion rhag cael eu cyfeirio o wasanaethau gofal sylfaenol oherwydd symptomau ar sail profion FIT yn unig.

Yn achos pobl nad ydynt wedi dychwelyd sampl o ysgarthion neu bobl sydd wedi cael canlyniad prawf FIT sydd islaw 10µg/g (microgramau o haemoglobin fesul gram o ysgarthion):

- dylai prosesau rhwydi diogelwch fod ar waith
- ni ddylid gohirio cyfeirio at lwybr gofal eilaidd priodol os oes pryder clinigol cryf ynghylch canser oherwydd symptomau presennol anesboniadwy (er enghraifft, màs yn yr abdomen)

Dylid cynnig prawf FIT hyd yn oed os yw'r unigolyn wedi cael canlyniad negyddol yn flaenorol yn sgil prawf FIT trwy Sgrinio Coluddion Cymru. Nid oes angen cynnig prawf FIT i bobl sydd â màs yn y rectwm, màs anesboniadwy yn y rhefr neu wlseriad anesboniadwy yn y rhefr cyn ystyried cyfeirio.

**At ddibenion rhwydi ddiogelwch, dylai timau clinigol ystyried:**

- cynnig gwybodaeth i'r claf ynghylch y sawl y dylai gysylltu â hwy os bydd yn datblygu symptomau newydd neu os bydd ei symptomau presennol yn gwaethygu
- defnyddio cyngor ac arweiniad drwy eRS i lywio gwaith rheoli cleifion â symptomau presennol neu drafferthus
- cyfeirio at lwybr canser brys symptomau amhenodol, os bydd hynny'n briodol ac os bydd pryderon heb eu datrys ynghylch y posibilrwydd o ganser
- rheoli cleifion sydd wedi cael canlyniad negyddol yn sgil prawf FIT mewn lleoliad cleifion allanol yn dilyn cyfeirio at lwybr llai brys

## Hysbysu eich cleifion
Gall cael eich cyfeirio i gael ymchwiliad pellach fod yn gyfnod sy'n peri pryder. Mae'n bwysig cynnig gwybodaeth eglur i'ch claf, neu ei warcheidwad neu ofalwr, am yr hyn y dylai ei ddisgwyl.

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at **bowelcanceruk.org.uk**